ucm cymru
undeb cenedlaethol y myfyrwyr
nus wales
national union of students

2il Lawr
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL
ff 02920 435 390
e office@nus-wales.org.uk
www.nus.org.uk

2nd Floor
Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL
t 02920 435 390
e office@nus-wales.org.uk
www.nus.org.uk

Dydd Iau 5 Hydref 2017

Simon Thomas AC
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

E-bost: simon.thomas@cynulliad.cymru

Annwyl Simon,

Ynghylch: Cyllideb Ddrafft Cymru 2018-19

Ysgrifennwn atoch a chithau'n Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.

Sylwn, gyda diddordeb, ar y cytundeb y daeth Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru iddo a sylwn y cyflwynwyd Cyllideb Ddrafft Cymru yr wythnos hon i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Rydym yn fodlon ar y cyfan â'r hyn a gynigiwyd yng Nghyllideb Ddrafft Cymru, ond fel y gwelir dro ar ôl tro, y manylion sy'n bwysig.

Yn naturiol, mewn Cyllideb o'r fath hon, mae angen egluro sawl maes yn fanwl cyn gallu bodloni pob rhanddeiliad. Felly, i wneud y broses graffu'n haws yn ystod yr wythnosau nesaf, hoffem dynnu eich sylw chi a sylw'r Pwyllgor Cyllid at y cwestiynau canlynol:

1. Ym mha feysydd y caiff y £20 miliwn ychwanegol y flwyddyn (ymrwymiad cylchol gan Gyllideb 2017-18) ei wario?

2. A oes unrhyw feysydd a fydd yn dwyn budd yn benodol o'r cyllid ychwanegol hwn tra bod meysydd eraill yn dioddef toriad?

3. Sylwir yn y Gyllideb y bydd cyllid AB yn aros ar lefelau 2017-18; a yw hynny'n golygu bod AU yn dwyn budd fwyaf o'r cyllid ychwanegol tra bod AB yn dioddef toriad termau real?

4. A yw'r £5 miliwn ychwanegol y flwyddyn, a glustnodir ar gyfer cymorth cynhaliaeth sy'n ymwneud â 'Diamond', yn rhan o'r £20 miliwn y flwyddyn neu a yw'n wahanol?

5. Nid yw'n glir a yw'r £20 miliwn ar gyfer cynhaliaeth wrth gefn ac offer at safon y diwydiant i gynorthwyo'r 'sector' yn ymwneud ag AU ac AB gyda'i gilydd, neu dim

ond AB. Beth bynnag yw'r sefyllfa, a ydym yn iawn i gredu mai dyraniad gwahanol i'r £20 miliwn y flwyddyn yw hwn?

6. Os mai dyraniad ar gyfer AU ac AB yw hwn, pa ffurf fydd i hwn, a sut caiff ei glustnodi i sicrhau cydraddoldeb hygyrchedd y cyllid?

7. Beth yw'r sail resymegol y tu ôl i'r £30 miliwn a glustnodir i resymoli ystadau AU er na cheir dyraniad o'r fath ar gyfer AB?

8. O ystyried y £10 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf i sefydliadau AB ei wario ar wella offer hyfforddi i sicrhau ei fod yn cyrraedd safon y diwydiant, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a diwallu anghenion cyflogwyr lleol, sut mae hwn yn cymharu â'r hyn sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd?

9. Sylwn y cedwir cyllid prentisiaethau ar lefelau 2017-18 ond sylwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i gyflwyno 100,000 o brentisiaethau ychwanegol ar gyfer pob oedran yn ystod y tymor hwn. Beth yw'r sail resymol y tu ôl i beidio â chynyddu'r cyllid hwn?

10. Beth yw'r sail resymol y tu ôl i beidio â chael buddsoddiad cyfalaf mewn cyflogwyr i wella ac ehangu'r ddarpariaeth prentisiaethau?

11. A fydd cadw cyllid prentisiaethau ar lefelau 2017-18 yn golygu toriad termau real mewn cyllid?

12. Sut aseswyd digonedd lefelau cyfredol y cyllid ar gyfer prentisiaethau a'r tebygolrwydd y bydd y lefel hon o gyllid yn arwain at Lywodraeth Cymru yn diwallu ei hymrwymiad i gyflwyno 100,000 o brentisiaethau ychwanegol ar gyfer pob oedran yn ystod y tymor hwn?

13. Caiff £70 miliwn ei fuddsoddi yn ystod 2018-20 yn narpariaeth gofal plant Llywodraeth Cymru (30 awr yr wythnos) ar gyfer rheini sydd â phlant 3 a 4 oed ac sy'n gweithio. Sut aseswyd cost estyn y ddarpariaeth hon i rieni sy'n fyfyrwyr llawn amser neu ran amser?

14. Sut aseswyd effaith y penderfyniadau ynghylch cyllid llywodraeth leol yn y dyfodol ar allu llywodraeth leol i gynnal gwasanaethau y mae myfyrwyr yn dibynnu arnynt, megis Fy Ngherdyn Teithio a gwasanaethau i fenywod?

15. Sut caiff 'Difidend Diamond' honedig ei ailfuddsoddi?

16. Sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol?

17. Pa ystyriaethau a wnaed ynghylch y cyllid ar gyfer gwella strwythurau llais y myfyriwr ar draws y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

18. A yw Llywodraeth Cymru wedi dechrau ystyried sut y bydd yn newid y ffordd y mae'n cyllido addysg a sgiliau—gan gynnwys holl addysg a hyfforddiant ôl-orfodol—unwaith y sefydlir Comisiwn Addysg ac Ymchwil Trydyddol Cymru?

19. Yn y Gyllideb hon, a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried sut y gallai ei phenderfyniadau ynghylch cyllido effeithio ar ei gallu i gyflawni ei gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

Gobeithio y bydd y cwestiynau hyn yn eich helpu chi a'ch cydweithwyr wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft Cymru 2018-19.

Yng ngoleuni agenda lym o gyni cyllidol Llywodraeth y DU, ac fel y nodwyd ar y dechrau, rydym yn fodlon ar y cyfan â'r hyn a gynigiwyd. Gobeithio y ceir rhagor o fanylion yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf i ganiatáu i'r Aelodau Cynulliad asesu cyllid Cymru at y dyfodol yn well.

Byddwch yn cofio yr ysgrifenasom atoch yn ddiweddar i ofyn i chi alw ar Lywodraeth Cymru i warchod y gyllideb addysg yn ei chyfanrwydd. Gwnaethom hynny gan ein bod yn credu'n gryf bod angen buddsoddi mewn addysg, nawr yn fwy nag erioed, fel bod modd iddi ateb pob dim fel y gall wneud i fynd i'r afael â nifer o'r heriau y mae Cymru yn eu hwynebu.

Rydym yn arbennig o awyddus i weld strwythurau effeithiol llais y myfyriwr yn cael eu gwreiddio yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol nawr ac wrth sefydlu Comisiwn Addysg ac Ymchwil Trydyddol Cymru. Rydych o bosibl yn ymwybodol ein bod yn gweithio ar fframwaith ynghylch sut beth fydd hyn, ond rydym yn awyddus i weld Llywodraeth Cymru yn rhoi hyn wrth galon ei newidiadau yn addysg yng Nghymru.

Dymunwn bob lwc i chi ac i'r Pwyllgor Cyllid wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft Cymru. Byddwch yn ymwybodol y byddem yn hapus esbonio unrhyw beth uchod yn fwy manwl os bydd hynny o fydd i chi.

Fel arall, edrychwn ymlaen at gyfarfod â chi yn fuan.

Yn gywir,

Ellen Jones
Llywydd UCM Cymru

Carmen Smith
Dirprwy Lywydd UCM Cymru

Gwyneth Sweatman
Swyddog Menywod UCM Cymru